MENTERA

## Manyleb Swydd

**Teitl y Swydd:** Rheolwr Datblygu Rhanbarthol - De Orllewin (dros dro) (1 FTE)
**Prosiect:** Cyswllt Ffermio
**Rheolwr Llinell:** Pennaeth Datblygu
**Cyflog:** £40,833
**Cytundeb:** Hyd at 31.3.26

---

**Nod**

Bod yn gyfrifol am ddarparu rhaglen Cyswllt Ffermio o fewn y rhanbarth diffiniedig ac ysbrydoli’r tîm o Swyddogion Datblygu i gyrraedd eu targedau ac i ddarparu gwasanaeth o safon uchel er mwyn rhoi cefnogaeth i ffermwyr yr ardal i ddatblygu eu busnesau mewn cyfnod o newid.

**Prif Gyfrifoldebau**

- Arwain, rheoli, ysgogi a datblygu'r tîm o Swyddogion Datblygu rhanbarthol i sicrhau eu bod yn darparu gwasanaeth rheolwr cwsmeriaid i'r diwydiant
- Rheoli'r Swyddogion Datblygu i sicrhau y cyflawnir eu targedau a bod y gwasanaeth a ddarperir o'r safon uchaf
- Monitro, adolygu ac adrodd ar allbynnau, gwariant a pherfformiad y rhaglen i’r Pennaeth Datblygu yn unol â gofynion cytundebol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys creu a chynnal systemau rheoli effeithiol i fodloni gofynion archwilio perthnasol
- Gweithio gyda'r Pennaeth Datblygu i ddatblygu prosesau rheoli a monitro ar gyfer y dull rheolwr cleient
- Gweithio gyda'r Pennaeth Datblygu i ddarparu clinigau a chymorthfeydd Cyswllt Ffermio
- Gweithio gyda’r Pennaeth Datblygu i reoli is-gontractwyr sy’n darparu gwasanaeth i’r rhaglen yn y rhanbarth perthnasol, gan gynnwys cynnal cyfarfodydd monitro perfformiad rheolaidd i sicrhau ansawdd
- Sicrhau bod strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru yn cael eu hymgorffori wrth gyflwyno’r rhaglen
- Cyfathrebu'r blaenoriaethau a nodwyd gan y Bwrdd Cynghori Strategol yn rheolaidd ac yn glir i'r Swyddogion Datblygu
- Gweithio gyda'r Pennaeth Datblygu i ddatblygu a chyflwyno'r broses gaffael a'r broses recriwtio ffermwyr ar gyfer y grwpiau trafod

MENTERA

- Rheoli a monitro un o themâu’r grwpiau trafod (Busnes, Tir neu Dda Byw). Sicrhau bod cyflwyniad grwpiau trafod yn unol â gofyniad y prosiect, gan gynnwys meincnodi.
- Gweithio gyda’r ymgynghorydd/wyr sy’n cyflawni’r grŵp trafod yn llwyddiannus i hyrwyddo ac annog syniadau prosiect gan grwpiau ar gyfer Cronfa Prosiect Grwpiau Trafod
- Sicrhau bod gwybodaeth o'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth yn cael ei bwydo i'r grwpiau trafod
- Sicrhau bod asesiadau pellter a deithiwyd o'r grwpiau trafod yn cael eu bwydo'n ôl i'r Swyddogion Datblygu.
- Gweithio gyda'r Rheolwyr eraill i ddatblygu a chyflwyno gwerthusiad parhaus o raglen y grwpiau trafod
- Meithrin cysylltiadau cryf ag asiantaethau allanol i wella'r ddarpariaeth gyffredinol o wasanaethau
- Nodi cyfleoedd newydd ar gyfer ymchwil, meincnodi a threialon yn rhagweithiol
- Gweithio’n agos gyda’r Tîm Technegol i ledaenu canfyddiadau gwaith prosiect ar y safleoedd o fewn y rhanbarth perthnasol a datblygu rhaglen leol o ddigwyddiadau sy’n diwallu anghenion y gymuned ffermio leol
- Sicrhau bod digwyddiadau Rhwydwaith Arddangos o fewn eu maes penodol yn cael eu cyfathrebu a’u hyrwyddo’n effeithiol gan y Swyddogion Datblygu trwy weithio’n agos gyda’r Tîm Technegol
- Cynrychioli’r prosiect trwy fynychu pwyllgorau/grwpiau perthnasol, adnabod ffyrdd o gydweithredu â gwasanaethau/sefydliadau eraill i wella darpariaeth gyfan y gwasanaeth
- Cyfrannu yn rheolaidd ac yn systematig tuag at themâu priodol i’w cynnwys mewn deunyddiau gwybodaeth a hyrwyddo gan gynnwys gwahoddiadau i ddigwyddiadau, e-fwletinau rhanddeiliaid, taflenni ffeithiau, cyhoeddiadau technegol ac erthyglau.
- Gweithio’n agos gyda’r tîm Marchnata a Chyfathrebu i sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu hyrwyddo yn unol â'r strategaeth farchnata a chyfathrebu integredig i'r gynulleidfa darged mewn modd effeithiol ac amserol
- Sicrhau bod Swyddogion Datblygu yn defnyddio cofrestriad y digwyddiad a bod presenoldeb mewn digwyddiadau yn cael ei gofnodi yn unol â’r gofynion cofrestru a’r dulliau cofnodi presenoldeb ar CMS; a bod y rhain yn cael eu cyflwyno i'r Ganolfan Wasanaeth mewn modd amserol
- Sicrhau bod cwsmeriaid sy'n mynd at y tîm am gyngor yn cael eu cyfeirio at y Gwasanaethau Cynghori priodol
- Monitro a gwerthuso adborth cwsmeriaid a dderbyniwyd, gan gymryd camau prydlon a phroffesiynol, yn ôl yr angen, i gywiro materion a godwyd a/neu nodi posibiliadau ar gyfer gwella'n barhaus o fewn y rhaglen
- Sicrhau bod adroddiadau cywir a pherthnasol yn cael eu darparu i’r Pennaeth Datblygu yn rheolaidd er mwyn hwyluso'r broses lle mae allbynnau gweithredol Cyswllt Ffermio yn cael eu monitro, eu hadolygu a'u hadrodd yn gywir i’r Rheolwr

MENTERA

Contract a Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion y contract, ac er mwyn bodloni'r gofynion archwilio perthnasol

**Arall**

- Sicrhau bod safonau ansawdd, gwasanaeth cwsmeriaid, cydraddoldeb ac amrywiaeth, iechyd a diogelwch a bioddiogelwch yn cael eu bodloni
- Derbyn dyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill yn ôl yr angen
- Cynrychioli Mentera yn ôl yr angen

**Sgiliau a Phrofiad**

**Hanfodol**

- Addysg hyd at lefel gradd, neu gymhwyster cyfatebol, mewn pwnc yn ymwneud ag amaethyddiaeth neu bwnc tebyg
- Profiad dangosadwy o weithio yn y diwydiant amaethyddol yng Nghymru
- Dealltwriaeth drylwyr o’r sectorau amaethyddol ac iechyd anifeiliaid yng Nghymru, gyda’r gallu i nodi’r wybodaeth a’r gwaith ymchwil ddiweddaraf sy’n berthnasol i’r sectorau hynny
- Profiad dangosadwy o fewn rôl reoli
- Gallu ysbrydoli tîm i gyrraedd targedau a chyrraedd eu llawn botensial
- Gallu monitro perfformiad gwasanaeth is-gontractwyr yn effeithiol, gan gymryd camau prydlon a phroffesiynol, yn ôl yr angen, i unioni materion a nodwyd
- Ymwybyddiaeth helaeth o ddatblygiad polisi amaethyddol, yn ogystal â strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru
- Gallu lledaenu themâu, canfyddiadau ymchwil a chynnwys y rhaglen mewn modd ymarferol a chlir sy'n berthnasol i'r gynulleidfa
- Profiad o drefnu digwyddiadau
- Rhwydweithiau datblygedig yn y rhanbarth perthnasol, ynghyd â phrofiad o feithrin perthnasoedd cydweithredol strategol gyda gwasanaethau/sefydliadau eraill
- Sgiliau rheoli prosiect cryf
- Gallu datblygu ac integreiddio gwasanaethau newydd mewn modd effeithiol ac amserol
- Gallu gwneud penderfyniadau anodd ac amserol er budd y busnes a/neu’r gwasanaeth, gan gynnwys codi pryderon priodol yn ymwneud â darparu’r gwasanaeth, cyllidebau a staff/is-gontractwyr
- Sgiliau cyflwyno a rhyngbersonol ar lefel uwch
- Gallu bod yn rhagweithiol a gyrru pethau ymlaen yn effeithiol, yn annibynnol ac fel rhan o dîm
- Gallu cymell ei hun, ac yn gallu derbyn cyfrifoldeb am osod ac adolygu blaenoriaethau er mwyn cyflawni targedau gyda ffocws clir ar ansawdd
- Sgiliau cyfathrebu dwyieithog llafar ac ysgrifenedig (Cymraeg/Saesneg) rhagorol

- Sgiliau TG rhagorol gan gynnwys - Windows; Meddalwedd cynhyrchiant (e-bost, prosesu geiriau, taenlenni, ffeilio data); Defnydd diogel o gyfrifiaduron a'r rhyngrwyd (chwilio a phori'r we, defnyddio gwefannau a chymwysiadau ar-lein)
- Os yn gweithio o adref am unrhyw adeg, bydd gofyn bod gennych gysylltiad rhyngrwyd addas yn barod.
- Trwydded yrru lawn a defnydd o gar

**Dymunol**
- Gwybodaeth am Raglen Cyswllt Ffermio

**Mwy o wybodaeth**

Am sgwrs anffurfiol ynglŷn â'r swydd hon, gallwch gysylltu ag Einir Williams ar 07985 379905 neu einir.williams@mentera.cymru

**Mae gofynion y swydd hon yn golygu ei bod wedi eu categoreiddio fel a ganlyn:**

**Trwydded yrru a char i'w ddefnyddio at ddibenion busnes:**

- Diangen
- Dymunol
- **Hanfodol**

**Gallu yn yr iaith Gymraeg:**

- Gwrando/Siarad: Lefel 5
- Darllen/Deall: Lefel 5
- Ysgrifennu: Lefel 5

*Mae Mentera yn darparu hyfforddiant sgiliau iaith i bob aelod o staff sy'n awyddus i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg.*

**Sut i ymgeisio**

Gallwch wneud cais am y swydd hon drwy gwblhau ffurflen gais a ffurflen cyfleoedd cyfartal a'u dychwelyd at swyddi@mentera.cymru erbyn 10 yb, dydd Mawrth, 14/10/2025

**Cyfweliadau**

Byddwn yn cynnal y cyfweliadau ar gyfer y swydd hon ar wythnos cychwyn 20/10/2025. Os nad yw'r dyddiad yma'n gyfleus, nodwch hynny ar eich ffurflen gais os gwelwch yn dda.

MENTERA

**Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Mae Mentera wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a chreu amgylchedd cynhwysol yn y gweithle. Rydym o'r farn y gellir gwneud hyn drwy ddenu, datblygu a chadw ystod amrywiol o bobl o lawer o gefndiroedd gwahanol. Felly, rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob rhan o'r gymuned, beth bynnag fo'u rhyw, ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth draws, statws perthynas, crefydd neu gred, cyfrifoldebau gofalu neu oedran.  Er mwyn cefnogi ein cyflogeion i sicrhau cydbwysedd rhwng eu gwaith a'u bywyd personol, am rhan fwyaf o'n swyddi byddwn yn ystyried cynigion i weithio'n hyblyg neu rannu'r swydd.